

Cymdeithas Gwasanaethau

Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.3.1 Cyfrif amser gwirfoddolwyr wrth wneud cais am nawdd



Mae amser gwirfoddolwyr fel ased ariannol wedi dod yn fwyfwy pwysig gyda chyllidwyr. Mae eu gwerth, fodd bynnag, yn amrywio o gronfa i gronfa.

Lluniwyd y rhestr gyfraddau isod fel canllaw i'r gwerth y mae rhai noddwyr yn ei roi ar amser gwirfoddolwyr.

Mae'r **Arolwg Blynyddol o Oriau a Enillion** (2008) yn argymhell ar gyfer y DU llawn amser, heb gynnwys rhan amser £11.87, rhan amser £7.49.

Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** fel arfer yn caniatáu £50 y diwrnod am lafur, £100 y diwrnod am lafur medrus a gwasanaethau technegol, a £300 y diwrnod am wasanaethau proffesiynol.

Nid yw **Cronfa Loteri Fawr** yn rhoi gwerth ariannol ar wirfoddoli gan nad ydynt yn ofyn amdano nawdd cyfatebol ond dylai ymgeiswyr cyfeirio at y canllawiau perthnasol yn ymwneud a'r cynllun dewisedig.

Mae **Cronfa Dreftadaeth y Loteri** wedi cyhoeddi canllawiau ar bennu gwerth cyfraniad gwirfoddolwyr i brosiectau, wrth asesu cyfraniad y ffynonellau hyn fel nawdd partneriaeth mewn ceisiadau i'r loteri. Mae'n awgrymu - gwasanaethau proffesiynol gwirfoddol - hyd at £350 y diwrnod; llafur medrus - £150 y diwrnod; llafur di-sgil - £50 y diwrnod.

Nid yw **Cyngor Chwaraeon Cymru** yn nodi swm penodol ond mae'n disgwyl i fudiadau allu cyfiawnhau unrhyw gostau a nodir *ee* disgwylir i lafur gwirfoddol ar waith adeiladu gael ei reoli'n broffesiynol a'i ardystio.

Mae **Amgylchedd Cymru** yn caniatáu £6.50 yr awr neu £260 ar gyfer gwirfoddoli am wythnos 40 awr.

Mae **Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd** yn derbyn amser gwirfoddolwyr fel nawdd cyfatebol. Rhaid i'r gyfraddau fesul awr a hawlir fod yn berthnasol i'r math o waith a wneir a rhaid cyfiawnhau'r holl gostiadau. Gellir cael taflen wybodaeth am hyn gan Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329, neu anfonwch e-bost at help@wcva.org.uk.

Bydd **Cyngor Cefn Gwlad Cymru** yn derbyn llafur gwirfoddol fel cost cymwys ar gyfer prosiect ond ni chaiff hwn fod yn fwy na'r gwariant arian gwirioneddol ar y prosiect. Maent yn caniatáu £6.25 yr awr ar gyfer llafur di-sgil (£50 y diwrnod), £12.50 yr awr (£100 y diwrnod) ar gyfer llafur sgilgar a £37.50 yr awr (£300 y diwrnod) am wasanaethau proffesiynol.

Nid yw **Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru** yn rhoi gwerth ariannol ar wirfoddoli ond maent yn talu mân dreuliau cyfreithlon.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig 1063289

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 29/05/2009



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk